Fersiwn:1.2. (crewyd 05.03.2018)
Perchennog: Swyddog Diogelu Data (Tîm Llywodraethu Gwybodaeth)

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

# POLISI SAFONAU PREIFATRWYDD

## Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council


Swyddog Diolgelu Data: Lisa Richards
Tîm Llywodraeth Gwybodaeth
Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN
01685 725000
data.protection@merthyr.gov.uk

## AMSERLEN Y POLISI

| DYDDIAD CYHOEDDI | FERSIWN | HANES Y NEWIDIADAU | CYMERADWYWYD |
|---|---|---|---|
| 05/03/2018 | 1 | Crëwyd y Polisi | Cyngor Llawn |
| 18/10/2019 | 1.1 | Nid oedd diweddariadau i'r Polisi | IGF |
| 27/01/2021 | 1.2 | Nid oedd diweddariadau i'r Polisi | IGF |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**CYNNWYS** **TUDALEN**


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Dehongliad | 1 |
| 3 | Amcanion | 3 |
| 4 | Ehangder | 4 |
| 5 | Datganiad y Polisi | 4 |
| 6 | Egwyddorion Diogelu Data | 4 |
| 7 | Diogelu Data Personol | 7 |
| 8 | Rhoi Gwybod am Dor Diogelu Data Personol | 8 |
| 9 | Cyfyngiadau Trosglwyddo | 8 |
| 10 | Hawliau a Cheisiadau Testun y Data | 9 |
| 11 | Atebolrwydd | 10 |
| 12 | Cofrestr o Weithgareddau Prosesu | 10 |
| 13 | Hyfforddiant ac Archwiliad | 11 |
| 14 | Cyfrinachedd o Fwriad ac Asesiadau Effaith Diogelu Data | 11 |
| 15 | Prosesu Awtomatig a Gwneud Penderfnyiadau drwy Awtomatiaeth | 12 |
| 16 | Marchnata Uniongyrchol | 12 |
| 17 | Rhannu Data Personol | 13 |
| 18 | Tor-polisi | 13 |
| 19 | Ystyriaethau Cyfreithiol | 14 |
| 20 | Cyfrifoldebau Gweithredu | 14 |
| 21 | Arolygu a Chynnal y Polisi | 14 |
| 22 | Derbyn y Polisi | 15 |


**ATODIADAU**


| | | |
|---|---|---|
| | Rhestr Atodiadau | 16 |
| 1 | Polisïau Perthnasol | 17 |
| 2 | Swyddogion Cyswllt Diogelu Data | 18 |

## 1. Cyflwyniad

Nod y polisi hwn yw gosod Safon Preifatrwydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Y Cyngor). Fe'i crëwyd yn unol â gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn cynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd, a chod ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth parthed cydymffurfio â diogelu data.

Amlinella'r Safon Breifatrwydd hon y ffordd y bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r egwyddorion a'r amodau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu bodloni wrth gael gafael ar, delio â, prosesu, cludo neu storio data personol wrth i ni fynd o amgylch ein pethau yn nhermau gweithredoedd a gweithgareddau yn cynnwys data cwsmer, cyflenwyr a gweithwyr. Bwriad y polisi yw amlinellu'r safonau y disgwylir i weithwyr y Cyngor gydymffurfio â hwy wrth ddarparu gwasanaeth sy'n gofyn am ddefnydd data personol.

Apwyntiodd y Cyngor Swyddog Diogelu Data yn unol ag Adran 4 Cymal 37 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR yn Saesneg) sy'n gyfrifol am weithredu a diweddaru'r polisi hwn.

## 2. Dehongliad

Defnyddiwyd y dehongliadau canlynol drwy gydol y polisi hwn:

| | |
|---|---|
| Gwneud Penderfyniadau Drwy Awtomatiaeth: | Pan gaiff penderfyniad ei wneud sydd wedi ei selio ar Brosesu Awtomatig yn unig (yn cynnwys proffilio) sydd yn achosi effeithiau cyfreithiol neu sy'n effeithio ar unigolyn yn sylweddol. |
| Prosesu Awtomatig: | Unrhyw ffurf o brosesu Data Personol yn awtomatig er mwyn pwyso a mesur elfennau personol sy'n ymwneud â'r unigolyn, yn benodol er mwyn dadansoddi neu ragfynegi elfennau sy'n ymwneud â pherfformiad yr unigolyn yn y gwaith, ei sefyllfa economaidd, iechyd, hoffterau personol, diddordebau, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau. Mae Proffilio yn enghraifft o Brosesu Awtomatig. |
| Personél y Cyngor: | Pob gweithiwr, contractwr, gweithwyr asiant, ymgynghorwyr, cyfarwyddwyr, aelodau ac eraill. |
| Caniatâd: | Cytundeb a roddir o wirfodd sy'n benodol, yn wybodus ac yn arwydd digamsyniol o ddymuniadau Testun y Data lle ceir cadarnhad, drwy ddatganiad neu drwy weithred glir a chadarnhaol y dynodir ei fod / ei bod yn cytuno i gael y Data Personol sy'n ymwneud â nhw eu hunain, wedi ei brosesu. |
| Rheolydd y Data: | Y person neu'r sefydliad sy'n penderfynu pryd, pam a sut y prosesir Data Personol. Y Cyngor yw Rheolydd Data'r holl Ddata Personol sy'n berthnasol i Bersonél y Cyngor a'r Data Personol a ddefnyddir o fewn ein sefydliad at ddibenion ein busnes. |
| Testun y Data: | Unigolyn byw, adnabyddedig neu adnabyddadwy sydd gennym Ddata Personol yn ei chylch/ ei gylch. Gall Testun y |

| | |
|---|---|
| | Data fod yn wladolyn neu'n breswyliwr o unrhyw wlad ac efallai bydd ganddynt hawliau cyfreithiol o ran eu Data Personol. Byddant yn cynnwys gweithwyr, cleientiaid, cwsmeriaid, achwynwyr a thrigolion y fwrdeistref. |
| Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data: | Offer ac asesiadau a ddefnyddir er mwyn sylwi ar, a lleihau'r peryglon sy'n ymwneud â gweithgareddau prosesu data. Gall Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data gael eu cynnal fel rhan o Gyfrinachedd o Fwriad a dylai'r broses gael ei chynnal ar gyfer pob un o'r systemau a rhaglenni newid busnes pwysig sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol. |
| Deddfwriaeth Diolgelu Data: | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((UE) 2016.679) ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau, ac is-ddeddfwriaethau gweithredol cenedlaethol, yn y Deyrnas Unedig ac unrhyw ddeddfwriaeth olynnol i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 1998, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Rheoliadau Telegyfathrebu (Arferion Busnes Cyfreithiol) (Rhyng-gipio Gohebiaeth) 2000, Rheoliadau Diogelu Data, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (cyfarwyddeb gan yr UE) 2003 (*SI 2426/2003*) a phob cyfraith a rheoliad perthnasol sy'n gysylltiedig â phrosesu data personol a chyfrinachedd, yn cynnwys y cyfarwyddyd a'r cod ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth. |
| Swyddog Diogelu Data: | Y person y mae'n ofynnol ei apwyntio mewn amodau penodol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. |
| Caniatâd Penodol: | Caniatâd sy'n ddibynnol ar ddatganiad penodol iawn (hynny ydy, nid gweithred yn unig). |
| Data Personol: | Unrhyw wybodaeth sy'n gwneud Testun y Data'n adnabyddadwy (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r data yn unig neu drwy gyfuniad o ddynodwyr eraill sydd gennym neu y gallwn gael gafael arnynt mewn modd rhesymol. Mae Data Personol yn cynnwys Data o Ddosbarth Arbennig a Data Personol Dan Ffugenw ond nid ydyw'n cynnwys data anhysbys neu ddata a waredwyd ar hunaniaeth yr unigolyn yn gyfan gwbl. Gall Data Personol fod yn ffeithiol (er enghraifft enw, cyfeiriad e-bost, lleoliad neu ddyddiad geni) neu'n farn ynghylch ymddygiad neu weithrediadau'r person hwnnw. |
| Tor Data Personol: | Unrhyw weithred neu omeddiad sy'n peryglu diogelwch, cyfrinachedd, cywirdeb neu natur gaffaeladwy'r Data Personol neu'r amddiffyniadau corfforol, technegol, gweinyddol neu sefydliadol a osodwyd gennym ni neu gan y cyflenwyr gwasanaeth trydydd parti rydym yn cydweithio â hwy, er mwyn ei ddiogeli. Mae unrhyw golled, fynediad anawdurdodedig, ddatgeliad neu achos lle mae'r Data Personol yn dod i feddiant rhywrai anawdurdodedig, yn Dor Data Personol. |
| Cyfrinachedd o Fwriad: | Gweithredu'r mesurau technegol a sefydliadol priodol |

| | |
|---|---|
| | mewn modd effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda'r Ddeddf Diogelu Data. |
| Hysbysiad Preifatrwydd: | Hysbysiadau ar wahân sy'n egluro'r wybodaeth a all gael ei darparu i Destun y Data pan fydd y Cyngor yn casglu data yn ei gylch/ ei chylch. |
| Prosesu neu Broses: | Unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â defnyddio Data Personol. Mae'n cynnwys casglu, cofnodi, neu ddal gafael ar ddata, neu gynnal unrhyw weithred neu gyfres o weithrediadau sy'n ymwneud â'r data yn cynnwys trefnu, diwygio, dwyn gwybodaeth yn ei hôl, datgelu, dileu neu ddinistrio'r wybodaeth. Mae prosesu hefyd yn cynnwys trosglwyddo Data Personol i drydydd parti. |
| Data Personol Dan Ffugenw: | Rhoi gwybodaeth newydd yn lle'r wybodaeth sy'n datgelu unigolyn un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol - felly defnyddir dynodwyr artiffisial neu ffugenwau fel nad oes modd adnabod y person a drafodir yn y data, heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol sydd i fod i gael ei gadw ar wahân ac yn ddiogel. |
| Data o Ddosbarth Arbennig: | Gwybodaeth sydd yn datgelu tarddiad ethnig, barn wleidyddol, crefydd neu gredoau tebyg, aelodaeth ag undebau llafur, cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, gwybodaeth fiometrig neu enetig a Data Personol sy'n ymwneud â throseddau ac euogfarnau. |

## 3. Amcanion

Amlyga'r polisi hwn yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan Bersonél y Cyngor er mwyn i'r Cyngor allu cydymffurfio gyda chyfraith diogelu data. Mae'n orfodol i gydymffurfio â'r polisi hwn. Mae polisi perthnasol ar gael er mwyn bod o gymorth wrth ddehongli'r polisi ac er mwyn bod yn gydnaws â'r polisi hwn. Rhaid i Bersonél y Cyngor gydymffurfio â phob polisi perthnasol.

Crëwyd y polisi hwn er mwyn lleihau'r peryg o brosesu Data Personol mewn modd na fyddai Testun y Data'n cydsynio ag ef. Mae'n rhoi cyngor ymarferol ynghylch pa fodd y dylai Personél y Cyngor gasglu, gofnodi a storio caniatâd yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Amlyga'r polisi hwn yr hyn y gall Testun y Data ei ddisgwyl gan y Cyngor wrth i'r Cyngor brosesu Gwybodaeth Bersonol. Rhaid i Bersonél y Cyngor ddarllen, deall a chydymffurfio gyda'r Safon Breifatrwydd hon wrth Brosesu Data Personol ar ran y Cyngor a rhaid mynychu hyfforddiant ynghylch y gofynion.

Dylid defnyddio'r polisi hwn a'i ddarllen ar y cyd â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol a restrir yn Atodiad 1.

## 4. Ehangder

Mae'r polisi hwn yn trafod prosesu Data Personol a Data o Ddosbarth Arbennig ac mae'n berthnasol i holl Bersonél y Cyngor.

## 5. Datganiad Polisi

Mae'r Cyngor yn cymryd ei ddyletswyddau statudol o ddifri ac mi fydd, ar bob achlysur, yn gweithredu'n unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac yn cymryd y camau angenrheidiol a chymesurol wrth ddelio gyda'r materion hyn. Yn hynny o beth, awdurdodir y Swyddog Diogelu Data gan y Cyngor i gadw'r polisi hwn yn gyfredol ac i ddiwygio, i ddileu, i ychwanegu neu amnewid y darpariaethau perthnasol, fel sydd angen.

## 6. Egwyddorion Diogelu Data

Bydd y Cyngor yn cadw at yr egwyddorion hynny sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol a amlygir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac sy'n gofyn am y canlynol wrth drin Data Personol:

(a) Ei fod yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg, ac mewn modd tryloyw (Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywedd).
(b) Cesglir y wybodaeth at ddibenion, penodol, clir a chyfreithlon yn unig (Cyfyngder Dibenion).
(c) Digonol, perthnasol ac wedi ei gyfyngu at yr hyn sy'n angenrheidiol o ran y rheswm y ceir ei brosesu (Lleddfu Data).
(d) Manwl gywir a lle'n berthnasol, yn gyfredol (Cywirdeb).
(e) Heb ei gadw ar ffurf fyddai'n caniatáu bod Testun y Data'n cael ei adnabod / ei hadnabod am hirach nag sydd angen o ran y dibenion y Prosesir y data (Cyfyngder Storio).
(f) Prosesir y data mewn ffordd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio'r mesurau technegol a sefydliadol priodol er mwyn gwarchod yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled ddamweiniol, dinistr neu ddifrod (Diogelwch, Cywirdeb a Chyfrinachedd).
(g) Ni ddylid ei drosglwyddo i wlad arall heb fod y diogeliadau priodol yn eu lle (Cyfyngder Trosglwyddo).
(h) Dylai'r Data fod ar gael i Destun y Data a dylid fod gan Destun y Data'r gallu i arfer hawliau penodol mewn cysylltiad â'u Data Personol (Hawliau a Cheisiadau Testun y Data).

Mae'r Cyngor, yn cynnwys Personél y Cyngor, yn gyfrifol am, a rhaid iddynt gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a restrir uchod. Dengys hwn yn ei dro bod y Cyngor yn gyfrifol am ein gweithgareddau prosesu sy'n cynnwys defnydd Data Personol a Data o Ddosbarth Arbennig.

## I. Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywedd

Rhaid prosesu data personol yn gyfreithiol, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn cysylltiad â Thestun y Data.

Dim ond mewn modd teg, cyfreithlon ac am resymau penodol y gall Personél y Cyngor gasglu, Prosesu a rhannu Data Personol. Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data'n cyfyngu gweithredoedd y Cyngor ynghylch Data Personol i unrhyw bwrpas cyfreithiol penodol. Nid bwriad y cyfyngiadau hyn yw atal prosesu, ond yn hytrach sicrhau ein bod yn prosesu data'n deg heb effeithio cwsmeriaid, cleientiaid a gweithwyr y Cyngor mewn modd niweidiol. Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data'n caniatáu prosesu am resymau penodol, ac fe'u rhestrir isod:

(a) rhoddwyd caniatâd gan Destun y Data;
(b) mae'r Prosesu'n angenrheidiol ar gyfer ffrufio cytundeb gyda Thestun y Data;
(c) er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau cyfreithiol i gydymffurfio;
(d) er mwyn gwarchod lles hanfodol Testun y Data;
(e) er mwyn ymgymryd â'n gorchwylion cyhoeddus;
(f) er mwyn dilyn ein buddion dilys at ddibenion lle nad ydynt yn cael eu diystyru o ganlyniad i'r ffaith bod y Prosesu'n rhagfarnu buddion neu hawliau a rhyddid sylfaenol Testun y Data. Rhaid i'r rhesymau rydym yn prosesu'r Data Personol am resymau dilys gael eu hegluro yn yr Hysbysiad Preifatrwydd neu'r Hysbysiad Prosesu Teg perthnasol.

Rhaid i'r Cyngor nodi a chofnodi'r rhesymau cyfreithiol y dibynnir arnynt ar gyfer pob un weithred o brosesu a rhaid cofnodi hwn yn ein Cofrestr o Weithgareddau Prosesu yn unol â Pholisi Prosesu Teg y Cyngor.

### Caniatâd:

Rhaid i Bersonél y Cyngor brosesu Data Personol ar sail un neu ragor o'r seiliau cyfreithiol a amlygir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, sy'n cynnwys Caniatâd. Rhaid derbyn Caniatâd yn unol â Pholisi Caniatâd y Cyngor.

### Tryloywedd (Hysbysu Testun y Data):

Gofynna'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data bod Personél y Cyngor yn darparu gwybodaeth fanwl, benodol i Destun y Data (eich cleientiaid, cwsmeriaid a'ch gweithwyr) yn dibynnu ar y ffordd y casglwyd y wybodaeth - un ai'n uniongyrchol o Destun y Data neu o rywle arall. Rhaid darparu'r wybodaeth hon drwy'r Hysbysiadau Preifatrwydd priodol a rhaid i'r hysbysiadau hyn fod yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hawdd mynd atynt ac mewn iaith glir a phlaen fel bod modd i Destun y Data eu deall yn rhwydd.

Rhaid i Bersonél y Cyngor gydymffurfio gyda Pholisi Prosesu Teg y Cyngor a'r Hysbysiadau Preifatrwydd drafft yn unol â'r polisi a nodwyd ar gyfer pob gweithgaredd prosesu a gyflawnir.

## II. Cyfyngder Dibenion

Rhaid i Ddata Personol gael ei gasglu at ddibenion penodol, diamwys a chyfreithlon yn unig. Ni ddylai gael ei brosesu ymhellach, mewn unrhyw fodd sy'n anghyson gyda'r dibenion hyn.

Nid yw Personél y Cyngor yn gallu defnyddio Data Personol at ddibenion newydd, anghyson neu wahanol i'r dibenion hynny yr amlygwyd pan gafwyd gafael ar y wybodaeth yn y lle cyntaf oni bai bod Testun y Data wedi cael gwybod am y dibenion newydd a'u bod wedi rhoi'r caniatâd priodol.

## III. Lleddfu Data

Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi ei gyfyngu at yr hyn sy'n angenrheidiol o ran y rheswm y ceir ei brosesu.

Dim ond wrth gyflawni dyletswyddau eu gwaith neu lle bod anghenion gwaith y Cyngor yn gofyn amdano, y gall Personél y Cyngor brosesu Data Personol. Ni all Personél y Cyngor brosesu Data Personol am unrhyw reswm sydd heb gyswllt a'u swydd.

Dim ond er mwyn casglu Data Personol sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni dyletswyddau eu gwaith y gall Personél y Cyngor gasglu Data Personol; ni ddylai Personél y Cyngor gasglu gormod o ddata. Rhaid i Bersonél y Cyngor sicrhau bod unrhyw Ddata Personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol i'r hyn y bwriadwyd ganddo.

Rhaid i Bersonél y Cyngor sicrhau, pan nad oes unrhyw angen am y Data Personol bellach o ran y dibenion a nodwyd yn wreiddiol, ei fod yn cael ei ddileu neu ei newid i fod yn ddienw/ anhysbys.

## IV.Cywirdeb

Rhaid i Ddata Personol fod yn fanwl gywir a, lle'n berthnasol, yn gyfredol. Rhaid iddo gael ei gywiro neu ei ddileu heb oedi os ydyw'n wallus.

Bydd Personél y Cyngor yn sicrhau bod y Data Personol a ddefnyddir ac a gedwir yn gywir, yn gyflawn, yn gyfredol ac yn berthnasol i'r dibenion hynny y casglwyd y data yn y lle cyntaf. Rhaid i Bersonél y Cyngor wirio cywirdeb unrhyw Ddata Personol ar y pwynt y cesglir y data ac yn rheolaidd wedi hynny. Rhaid i Bersonél y Cyngor gymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddiwygio Data Personol gwallus neu Ddata Personol sydd wedi dyddio.

## V. Cyfyngder Storio

Rhaid sicrhau nad yw Data Personol yn cael ei gadw ar ffurf fyddai'n caniatáu bod Testun y Data'n cael ei adnabod / ei hadnabod am hirach nag sydd angen o ran y dibenion y Prosesir y data.

Rhaid sicrhau nad yw Personél y Cyngor yn cadw Data Personol ar ffurf sy'n caniatáu bod Testun y Data'n gallu cael ei adnabod / ei hadnabod am hirach nag sydd angen o ran dibenion cyfreithiol dibenion y gwaith am y rheswm hynny y casglwyd y data yn y lle cyntaf yn cynnwys bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyllidol neu adroddiadol y Prosesir y data.

Bydd y Cyngor yn cynnal polisïau a gweithdrefnau cadw er mwyn sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddileu wedi i amser rhesymol ddarfod yn dilyn y rheswm y cadwyd y data yn y lle cyntaf, oni bai fod cyfraith sy'n gofyn bod y data'n cael ei gadw am isafswm o amser.

Bydd Personél y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddileu o'n systemau pob Data Personol nad oes ei angen arnom ragor yn unol â pholisïau ac amserlenni perthnasol y Cyngor parthed cadw cofnodion. Mae hwn yn cynnwys gofyn i drydydd parti ddileu data o'r fath lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd Personél y Cyngor yn sicrhau fod Testun y Data'n cael gwybod am hyd y cyfnod y storir y data a sut penderfynir ar y cyfnod hwnnw o amser mewn unrhyw Hysbysiad Preifatrwydd perthnasol.

## 7. Diogelu Data Personol

Rhaid defnyddio'r mesurau technegol a sefydliadol perthnasol er mwyn gwarchod Data Personol yn erbyn Prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled ddamweiniol, dinistr neu ddifrod.

Bydd y Cyngor yn datblygu, yn gweithredu ac yn cynnal diogeliadau sy'n briodol i'n hanghenion busnes ni, yr adnoddau sydd ar gael, nifer y Data Personol rydym yn berchen arno ac yn eu cynnal a byddwn yn nodi peryglon (yn cynnwys defnyddio amgryptiad a Ffugenwau lle bo hynny'n briodol). Bydd y Cyngor yn gwerthuso ac yn profi effeithlonrwydd y diogeliadau hynny'n rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y ffordd rydym yn Prosesu Data Personol. Mae Personél y Cyngor yn gyfrifol am y Data Personol sydd yn ein dwylo. Bydd y Cyngor yn gweithredu mesurau diogelu rhesymol yn erbyn unrhyw Brosesu Data Personol anawdurdodedig ac yn erbyn colled ddamweiniol, neu ddifrod i Ddata Personol. Rhaid i Bersonél y Cyngor fod yn arbennig o ofalus wrth warchod Data o Ddosbarth Arbennig rhag colled a mynediad, defnydd neu ddatgeliad anawdurdodedig.

Rhaid i Bersonél y Cyngor ddilyn y gweithdrefnau a'r technolegau a osodwyd gennym er mwyn cynnal diogelwch yr holl Ddata Personol o'r pwynt y cesglir y data hyd y pwynt y caiff ei ddinistrio. Dim ond at drydydd parti sy'n cytuno i gydymffurfio gyda'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ac sy'n fodlon gosod mesurau digonol, fel y gofynnir iddynt ei wneud, y gall Personél y Cyngor drosglwyddo Data Personol.

Rhaid i Bersonél y Cyngor gynnal diogelwch data drwy warchod cyfrinachedd, cywirdeb a thrwy sicrhau bod y Data Personol ar gael i'r sawl sydd ei angen, fel a ganlyn:

(a) Golyga Cyfrinachedd mai dim ond pobl sydd angen gwybod ar sail gwaith ac sydd wedi

eu hawdurdodi i ddefnyddio'r Data Personol all gael mynediad iddo.

(b) Mae Cywirdeb yn golygu bod y Data Personol yn gywir ac yn briodol at y dibenion y caiff ei brosesu.

(c) Mae Ar Gael i'r Sawl Sydd ei Angen yn golygu bod defnyddwyr awdurdodedig yn gallu cael mynediad i'r Data Personol pan fod angen iddynt wneud hynny at ddibenion awdurdodedig.

Rhaid i Bersonél y Cyngor gydymffurfio gyda phob agwedd berthnasol o'r Polisïau a'r Gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth. Yn ogystal â hyn bydd pob un o Bersonél y Cyngor yn cydymffurfio gyda, heb geisio osgoi'r, diogeliadau gweinyddol, corfforol a thechnolegol a weithredir a chynhelir gan y Cyngor yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data a'r safonau perthnasol i ddiogelu Data Personol.

## 8. Rhoi Gwybod Am Dor Data Personol

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data'n gofyn bod y Cyngor yn hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw Dor Data Personol ac, mewn rhai achosion, yn hysbysu Testun y Data hefyd.

Mae'r Polisi Tor Data Personol yn amlygu'r ffordd y dylai Personél y Cyngor ddelio gydag unrhyw Dor Data Personol a ddrwgdybir.

Os oes unrhyw un o Bersonél y Cyngor yn gwybod neu'n amau bod Tor Data Personol wedi digwydd, ni ddylent geisio gwneud ymchwiliad i'r mater ond dylent gysylltu gyda'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn syth bin a dilyn y Polisi Tor Data Personol. Dylai Personél y Cyngor gadw pob tystiolaeth sy'n ymwneud a'r Tor Data Personol posib.

## 9. Cyfyngiadau Trosgwlyddo

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data'n cyfyngu trosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn sicrhau nad yw lefel y diogelu data a roddir i Destun y Data'n cael ei danseilio. Bydd Personél y Cyngor yn trosglwyddo Data Personol sy'n tarddu mewn un wlad, ar draws ffiniau pan gaiff ei anfon o wlad arall, ei weld mewn gwlad arall neu os fydd rhywun yn cael mynediad iddo mewn gwald arall.

Dim ond os ydy un o'r amodau canlynol yn berthnasol y gall Personél y Cyngor drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd:

(a) cyhoeddwyd penderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn cadarnhau bod gan y wlad yr anfonir Data Personol ati gan y Cyngor, lefelau digonol o ddiogelwch parthed hwaliau a rhyddid Testun y Data;

(b) mae'r diogeliadau priodol wedi eu gosod megis rheolau rhwymo corfforaethol, cymalau cytundebol safonol a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, cod ymddygiad a gymeradwywyd neu drefn ardystio;

(c) Mae Testun y Data wedi darparu Caniatâd Penodol ynghylch y trosglwyddiad arfaethedig wedi iddynt gael gwybod am unrhyw beryglon posib; neu

(d) bod y trosglwyddiad yn un angenrheidiol o ganlyniad i un o'r rhesymau eraill a amlygir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys cyflawni cytundeb rhyngom ni a Thestun

y Data, rhesymau sydd o fudd i'r cyhoedd, i sefydlu, gweithredu neu amddiffyn honiadau cyfreithiol neu i warchod lles hanfodol Testun y Data mewn achos lle nad yw Testun y Data, am resymau corfforol neu gyfreithiol, yn gallu rhoi caniatâd ac, mewn rhai achosion cyfyngedig, er mwyn ein lles cyfreithiol ni.

## 10. Hawliau a Cheisiadau Testun y Data

Mae gan Destun y Data hawliau o ran y ffordd rydym yn trin eu Data Personol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:

(a) dynnu caniatâd yn ei ôl ar unrhyw adeg;
(b) dderbyn gwybodaeth benodol ynghylch gweithgareddau Prosesu'r Cyngor;
(c) ofyn am fynediad i'w Data Personol;
(d) atal y Cyngor rhag defnyddio eu data ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol;
(e) ofyn i'r Cyngor ddileu Data Personol os nad yw'n angenrheidiol yn unol â'r dibenion y casglwyd neu y Proseswyd y data yn y lle cyntaf neu er mwyn cywiro data gwallus neu i wneud data anghyflawn yn gyflawn;
(f) gyfyngu ar Brosesu dan amgylchiadau penodol;
(g) herio Prosesu a gyfiawnhawyd ar sail budd cyfreithiol y Cyngor neu er budd y cyhoedd;
(h) ofyn am gopi o'r cytundeb sy'n galluogi trosglwyddo Data Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
(i) wrthwynebu penderfyniadau a wnaed ar sail Prosesu drwy Awtomatiaeth yn unig yn cynnwys proffilio;
(j) atal Prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu ofid i Destun y Data neu i unrhywun arall;
(k) gael gwybod am Dor Data Personol sy'n debygol o fod yn beryg i'w hawliau a'u rhyddid;
(l) gwyno i'r awdurdod goruchwyliol; ac
(m) mewn achosion cyfyngedig, derbyn neu ofyn i'w Data Personol gael ei drosglwyddo i drydydd parti mewn ffurf strwythuredig, sy'n cael ei ddefnyddio'n aml a lle gellir ei ddarllen ar beiriant.

Rhaid i Bersonél y Cyngor anfon copïau o'r gofynion hyn a restrir uchod at y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn iddynt eu hystyried. Ni ddylai Personél y Cyngor adael i drydydd parti berswadio Personél y Cyngor ddatgelu Data Personol heb yr awdurdod priodol gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Rhaid i Bersonél y Cyngor anfon unrhyw gais a dderbynnir gan Destun y Data i'r Swyddog Datgelu Data a'r Swyddog Cofnodion a chydymffurfio gyda'r Polisi Cais am Fynediad gan Destun y Data.

## 11. Atebolrwydd

Rhaid i'r Cyngor weithredu'r mesurau technegol a sefydliadol priodol mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gydag egwyddorion diogelu data. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am, a rhaid iddo allu profi, ei fod yn cydymffurfio gydag egwyddorion diogelu data.

Rhaid bod gan y Cyngor adnoddau digonol a rhaid i'r Cyngor osod rheolaethau er mwyn sicrhau a dogfennu cydymffurfiaeth Diogelu Data yn cynnwys:

(a) apwyntio Swyddog Diogelu Data cymwys, sydd wedi ei lleoli / ei leoli yn y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, a gweithredydd sy'n atebol dros gyfrinachedd data, Yr Uwch Berchennog Perygl Gwybodaeth, rhestrir ei manylion cyswllt yn atodiad 2;
(b) gweithredu Cyfrinachedd o Fwriad wrth Brosesu Data Personol a chyflawni Asesiad Effaith Diogelu Data lle gall Prosesu achosi peryg mawr i hawliau a rhyddid Testun y Data;
(c) integreiddio diogelu data i mewn i ddogfennau mewnol yn cynnwys y Safon Breifatrwydd hon, Polisïau Perthnasol, Canllawiau Preifatrwydd, Hysbysiadau Preifatrwydd neu Hysbysiadau Prosesu Teg;
(d) hyfforddi Personél y Cyngor yn gyson parthed y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r hyfforddiant gan Bersonél y Cyngor; a
(e) phrofi'n rheolaidd y mesurau cyfrinachedd a weithredir a chynnal arolygiadau o bryd i'w gilydd ac archwiliad er mwyn asesu cydymffurfiaeth, yn cynnwys defnyddio canlyniadau'r profion i brofi ein bod yn cydymffurfio yn yr ymdrech i wella.

## 12. Cofrestru Gweithgareddau Prosesu

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data'n gofyn bod y Cyngor yn cadw cofnod llawn a manwl gywir o'n holl weithgareddau Prosesu. Cedwir y rhain mewn Cofrestr o Gofnodion Gweithgaredd Prosesu.

Bydd y Gofrestr o Gofnodion Gweithgaredd Prosesu'r Cyngor yn cynnwys, enw a manylion cyswllt y Cyngor a'r Swyddog Diogelu Data, disgrifiadau clir o'r gwahanol fathau o Ddata Personol, y gwahanol fathau o Destun y Data, gweithgareddau Prosesu, rhesymau dros Brosesu, trydydd parti sy'n derbyn Data Personol wedi ei drosglwyddo gennym, gwybodaeth am ba hyd y cedwir y Data Personol gennym a disgrifiad o'r mesurau diogelwch sydd ar waith.

Rhaid i Bersonél y Cyngor gadw a chynnal cofnodion corfforaethol manwl gywir sy'n adlewyrchu Prosesu'r Cyngor yn cynnwys cofnodion o Ganiatâd Testun y Data a'r gweithdrefnau sydd ar waith parthed cael gafael ar Ganiatâd yn unol â Pholisi Caniatâd y Cyngor.

## 13. Hyfforddiant ac Archwiliad

Bydd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn sicrhau bod holl Bersonél y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant digonol fydd yn eu galluogi i gydymffurfio gyda Deddfwriaeth Diogelu Data.

Rhaid i Bersonél y Cyngor gymryd rhan mewn pob hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud â diogelu data a rhaid i Benaethiaid y Gwasanaethau sicrhau bod eu hadrannau'n cwblhau'r hyfforddiant gorfodol yn unol â'r Polisïau Diogelu Gwybodaeth.

Rhaid i Bersonél y Cyngor arolygu'r holl systemau a phrosesau maent yn eu rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Safon Breifatrwydd hon a gwirio bod rheolaeth ac adnoddau digonol ar waith er mwyn sicrhau'r defnydd cywir, a diogelwch Data Personol.

## 14. Cyfrinachedd o Fwriad ac Asesiadau Effaith Diogelu Data (AEDD)

Mae gofyn i'r Cyngor weithredu mesurau Cyfrinachedd o Fwriad wrth Brosesu Data Personol gan weithredu'r mesurau technegol a sefydliadol perthnasol (megis rhoi Ffugenw) mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gydag egwyddorion diogelu data.

Rhaid i Bersonél y Cyngor asesu pa fesurau Cyfrinachedd o Fwriad y gellir eu gweithredu ar bob rhaglen/ system/ proses sy'n Prosesu Data Personol drwy gymryd y canlynol i ystyriaeth:

(a) man eithaf y grefft;
(b) y gost o weithredu;
(c) natur, cyd-destun, pwrpas a pha mor eang yw'r Prosesu; a
(d) pheryglon gwahanol bosibiliadau tebygol a difrifoldeb y posibiliadau tebygol hynny ar hawliau a rhyddid Testun y Data o ganlyniad i'r Prosesu.

Rhaid i'r Cyngor hefyd gynnal Asesiadau Effaith Diogelu Data (AEDD) wrth ymwneud â Phrosesu sy'n uchel ei risg.

Dylai Personél y Cyngor gynnal AEDD, a thrafod y canfyddiadau gyda'r Swyddog Diogelu Data, wrth weithredu systemau mawr neu raglennu newid busnes sy'n ymwneud a Phrosesu Data Personol yn cynnwys:

(a) defnyddio technolegau newydd (rhaglenni, systemau neu brosesau), neu newid technolegau (rhaglenni, systemau neu brosesau);
(b) Prosesu Awtomatig yn cynnwys proffilio a Gwneud Penderfyniadau Drwy Awtomatiaeth;
(c) Prosesu Data o Ddosbarth Arbennig ar raddfa eang; a
(d) Monitro ardal sydd ar agor i'r cyhoedd, ar raddfa eang ac yn systematig.

Rhaid i Asesiad Diogelu Data gynnwys:

(a) disgrifiad o'r Prosesu, ei ddibenion a'i les dilys os yn briodol;
(b) asesiad o angenrheidrwydd a chymesuroldeb y Prosesu mewn perthynas â'i ddibenion;
(c) asesiad o'r peryg i unigolion; a'r
(d) mesurau sydd ar waith er mwyn lleihau'r peryglon hyn a phrawf o gydymffurfiaeth.

Rhaid i Bersonél y Cyngor gwblhau templed Asesiad Effaith Diogelu Data cyffredinol y Cyngor pan fo'r gweithgaredd yn cynnwys prosesu Data Personol, a dylid cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data cymhleth pan fo'r gweithgaredd yn ymwneud â phrosesu Data o Ddosbarth Arbennig. Mae templed yr Asesiad Effaith Diogelu Data wedi ei leoli ar dudalennu'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ar y rhwydwaith mewnol.

## 15. Prosesu Awtomatig a Gwneud Penderfyniadau drwy Awtomatiaeth

Yn gyffredinol, mae Gwneud Penderfyniadau drwy Awtomatiaeth, yn cynnwys proffilio, wedi ei wahardd pan fod gan benderfyniad effaith gyfreithiol neu effaith tebyg i hynny, ar unigolyn oni bai fod:

(a) Testun y Data wedi rhoi Caniatâd Penodol;
(b) bod y Prosesu wedi ei awdurdodi gan y gyfraith; neu
(c) bod y prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni neu ffurfio cytundeb.

Os oes Data o Ddosbarth Arbennig yn cael ei brosesu yna nid oes hawl defnyddio rheswm (b) na (c) ond gall Data Sensitif gael ei brosesu pan fod hynny'n angenrheidiol mewn achos sydd o fudd mawr i'r cyhoedd megis atal twyll (oni bai bod modd defnyddio dull llai ymwthiol).

Os ydy penderfyniad yn cael ei wneud ar sail Prosesu Awtomatig yn unig (yn cynnwys proffilio), yna rhaid rhoi gwybod i Destun y Data am ei hawl i wrthwynebu. Rhaid gosod yr hawl hwn gerbron Testun y Data mewn modd penodol iawn a rhaid ei gyflwyno'n glir ac ar wahân i wybodaeth arall. Ar ben hynny, rhaid gosod mesurau addas er mwyn diogelu hawliau rhyddid a lles dilys Testun y Data.

Rhaid i'r adran sy'n perfformio'r Prosesu Awtomatig hefyd roi gwybod i Destun y Data beth yw'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau neu'r proffilio, arwyddocâd y canlyniadau a'r canlyniadau a ragwelir a rhaid rhoi'r hawl i Destun y Data ofyn am ymyrraeth ddynol, yr hawl i roi ei barn neu i herio'r penderfyniad.

Rhaid cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data cyn bod unrhyw Brosesu Awtomatig (yn cynnwys proffilio) neu cyn bod proses o wneud Penderfyniadau drwy Awtomatiaeth yn cael eu cynnal.

## 16. Marchnata Uniongyrchol

Mae'r Cyngor yn rhwym wrth reolau penodol a rheolau preifatrwydd wrth farchnata i'r Testun Data.

Rhaid bod yr hawl i ymwrthod â Marchnata Uniongyrchol yn cael ei gynnig yn ddiamwys i Destun y Data mewn modd eglur sy'n ei wneud yn hawdd ei weld ar wahân i wybodaeth eraill.

Rhaid anrhydeddu gwrthwynebiad Testun y Data i Farchnata Uniongyrchol yn syth bin. Os ydy Testun y Data'n dewis peidio â derbyn marchnata uniongyrchol rhaid celu eu manylion cyn gynted â phosib. Mae celu'n golygu dim ond cadw prin digon o wybodaeth i sicrhau bod eu dewisiadau marchnata yn cael eu parchu yn y dyfodol.

## 17. Rhannu Data Personnol

Nid oes gan Bersonél y Cyngor yr hawl i rannu Data Personol gyda thrydydd parti oni bai bod diogeliadau penodol a threfniadau cytundebol ar waith.

Dim ond os oes gan y derbynnydd anghenion yn ymwneud â gwaith y gall Personél y Cyngor rannu Data Personol yn fewnol a dim ond os ydy'r trosglwyddiad yn cydymffurfio gydag unrhyw gyfyngiadau perthnasol parthed anfon data.

Gall Personél y Cyngor rannu Data Personol gyda thrydydd parti, megis ein darparwyr gwasanaeth, os cyflawnir yr amodau canlynol yn unig:

(a) mae ganddynt anghenion yn ymwneud â'r gwaith sy'n gofyn bod angen y wybodaeth hon arnynt at ddibenion darparu gwasanaethau'r cytundeb;
(b) mae rhannu'r Data Personol yn cydymffurfio gyda'r Hysbysiad Preifatrwydd a anfonwyd at Destun y Data ac, os yn berthnasol, cafwyd caniatâd gan Destun y Data;
(c) mae'r trydydd parti wedi cytuno i gydymffurfio gyda'r safonau diogelwch, y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ac wedi rhoi mesurau diogelwch digonol ar waith;
(d) mae'r trosglwyddiad yn cydymffurfio gydag unrhyw gyfyngiadau traws ffiniol perthnasol; a
(e) cafwyd cytundeb ysgrifenedig hollol gyflawn sy'n cynnwys cymalau prosesu trydydd parti a gymeradwywyd.

Dylai pob achos o rannu data neu allanoli gweithgareddau prosesu data gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Diogelu Data a'r Swyddog Diogelwch Gwybodaeth cyn bod y prosesu'n cychwyn.

## 18. Tor-Polisi

Os darganfyddir tor i'r polisi hwn rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn iddynt ymchwilio'r tor polisi.

Bydd peidio â chydymffurfio i'r rheolau a'r gweithdrefnau a nodwyd yn y polisi hwn yn cyfri fel tor-polisi a bydd o bosib hefyd yn torri'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Byddwn yn ystyried tor-polisi yn unol â pholisïau a gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor a gall arwain at weithdrefnau disgyblu hyd at, ac yn cynnwys, diswyddo.

## 19. Ystyriaethau Cyfreithiol

Wrth greu'r polisi hwn rhoddodd y Cyngor sylw i'r fframweithiau deddfwriaethol canlynol:

> Deddf Hawliau Dynol 1998 – Mae Cymal 8 o'r ddeddf hon yn rhoi'r hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol, y cartref a gohebiaeth. Nid yw'r polisi hwn yn bwriadu tresmasu ar unrhyw un o hawliau Cymal 8.

Deddf Diogelu Data 2018 – Mae'r ddeddf hon yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n amlygu sut gall gwybodaeth parthed gweithwyr, cwsmeriaid, cleientiaid etc. gael ei chasglu, ei thrin a'i defnyddio. Bwriad y Polisi hwn yw amlygu sut bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda diogelu data drwy holl adrannau'r Cyngor.

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn amodi bod yn rhaid, wrth brosesu data personol, cydymffurfio â'r seiliau cyfreithiol dros brosesu gwybodaeth bersonol. Mae'n darparu safon gyffredinol parthed beth gall Testun y Data ei ddisgwyl gan y sawl sy'n rheoli data pan fod eu gwybdoaeth bersonol yn cael ei chasglu.

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 – Mae'r ddeddf hon yn amlygu'r graddau y gall y Cyngor fonitro a chadw cofnod o ohebiaeth breifat a dderbynnir gennym drwy ein systemau telathrebu. Mae'n berthnasol i bob rhwydwaith gohebu preifat a chyhoeddus. Mi fydd y cyngor yn cadw at y Rheoliadau hyn ac ni fydd yn rhyng-gipio gohebiaeth yn anghyfreithlon.

## 20. Cyfrifoldebau Gweithredu

Bydd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn datblygu, cynnal a chyhoeddi prosesau er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth gyda'r polisi hwn.

Bydd Personél y Cyngor yn ymwybodol o, ac yn cydymffurfio â phob polisi a gweithdrefn berthnasol arall.

Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn o fewn eu meysydd cyfrifoldeb nhw eu hunain.

## 21. Adolygu a Chynnal y Polisi

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol ac ar adegau eraill yn unol â'r anghenion gweithredol a newidiadau i'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

## 22. Derbyn y Polisi

Rhaid i bob aelod o staff gadarnhau ei bod yn derbyn ac yn cydymffurfio â'r Polisi Safonau Preifatrwydd a rhaid iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen a deall cynnwys y polisi hwn.

**ENW LLAWN MEWN YSGRIFEN FRAS:**___________________________________________

**TEITL EICH SWYDD:** ___________________________________________

**LLOFNOD:** ___________________________________________

**DYDDIAD:** ____________ / __________ /__________

*(Dylid argraffu'r dudalen hon a'i dychwelyd at y Swyddog Diogelu Data sydd wedi ei leoli ei lleoli yn y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, Y Ganolfan Ddinesig)*

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Polisi Safon Preifatrwydd – Atodiadau

1. Polisïau Perthnasol
2. Swyddogion Cyswllt Diogelu Data Data

## Atodiad 1

Cytundeb i'r Polisi Safonau Preifatrwydd, mae hefyd yn cadarnhau cytundeb a chydymffurfiaeth gyda'r polisïau gweithredol cefnogol canlynol:

Polisi Caniatâd
Polisi Tor Diogelu Data
Polisi Cais am Fynediad gan Destun y Data
Polisi Diogelwch Gwybodaeth a Pholisïau Cefnogol

**Atodiad 2**

Mae'r swyddogion perthnasol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth diogelu data yn cynnwys:

Lisa Richards
Swyddog Diogeli Ddata
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Ellis Cooper
Uwch Berchennog Peryg Gwybodaeth